O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2102 (Cy. 228)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Johnston, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 10 MYA Dros Dro a Gwahardd Goddiweddyd) 2011

Wedi'i wneud	*25 Awst 2011*
Yn dod i rym	*5 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Hwlffordd – Aberdaugleddau (A4076) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd gael ei gyfyngu a'i wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall,**(2)** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Medi 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Johnston, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 10 MYA Dros Dro a Gwahardd Goddiweddyd) 2011.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08.00 o'r gloch ar 5 Medi 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o'r gefnffordd yn Johnston yn Sir Benfro sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â Langford Road hyd at bwynt 667 metr i'r gogledd o'r un gyffordd.